# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 17eg o Ebrill, 2019** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Yn absenoldeb y Cadeirydd, estynnwyd croeso i bawb gan Nerys Evans. Yn bresennol roedd Gwilym Thomas, Gwilym Lloyd Williams, Bryn Hughes, Huw Rowlands, Jason Hunt ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Aeron M Jones, Elin Evans, Michelle Williams, Peter Roberts, Rhodri Dwyfor, ag Tom Ellis. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Datganwyd buddiant gan y canlynol:<br>5c) – NE – Twll yn llwybr Bryngwyn.<br>5i) - GT – Cais cynllunio Dinas – dim offer yn y cae chwarae.<br>9 – GT - Cais – C19/0069/24/LL – Codi ised stori amaethyddol – Tyn Pant, Llandwrog Uchaf, Caernarfon LL54 7RA. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 20.02.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan GT ag eiliwyd gan BH. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) Bysiau<br>Nodwyd fod y clerc wedi derbyn e-bost gan glerc Cyngor Cymuned Llandwrog ynglŷn â thendr aeth allan ar gyfer bws gwasanaeth i Ddinas Dinlle. Mynegwyd pryder gan Gyngor Llandwrog eu bod wedi eu cynnwys ynghyd a Chyngor Bontnewydd i gefnogi'r cais hwn heb fod yn ymwybodol ohono. Trafodwyd nad oedd Cyngor Cymuned Llanwnda yn ymwybodol o'r cais nes iddo fod ar y newyddion. Penderfynwyd y dylai materion yma cael eu codi mewn cyfarfodydd brys a ni ddylai materion sydd yn seiliedig gyda'r Cyngor gael ei benderfynu gan unigolion. Eglurwyd fod cwmni bws Dilwyn's Coaches wedi llenwi bwlch yn y gwasanaeth hwn ond mynegwyd pryder fod Cyngor Gwynedd yn gallu diddymu contractau ar fyr rybudd, heb gysylltu gyda'r cynghorau cymuned. Penderfynwyd ei gynnwys ar agenda cyfarfod mis Mai.<br><br>b) Graeanu<br>Derbyniodd y clerc lythyr gan GG yn ymddiheuro am ddweud wrth y cyhoedd i gysylltu gyda'r Cyngor Cymuned yn ystod tywydd garw. Nid yw Cyngor Cymuned Llanwnda wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth llenwi biniau halen. Roedd yn anwir i GG roi neges ar eu gwefan a derbyniwyd cadarnhad y byddent yn sicrhau fod y neges gywir yn cael ei gyfleu o hyn allan.<br><br>c) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Derbyniwyd e-bost gan berchen tir ger llwybr Bryngwyn, fod polion wedi pydru. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Chwmni Gwalch, ynghyd a'r contractwr torri gwair i ofyn am amcan bris i adnewyddu'r polion. Yn ogystal, gofynnwyd i'r clerc , edrych ar ffeil Bryngwyn i weld os oedd y contractwyr a wnaeth y gwaith wedi defnyddio polion pren oedd wedi eu trin.<br><br>d) AMJ - Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor<br>Yn absenoldeb AMJ penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.<br><br>e) Safle we gyfredol + ymgysylltu gyda'r cyhoedd – [www.cyngorllanwnda.co.uk](http://www.cyngorllanwnda.co.uk)<br>Nodwyd fod angen lawrlwytho'r polisïau ynghyd a phrisiau newydd ar gyfer claddedigaeth. |

f) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023
Yn absenoldeb AMJ penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

g) Taclo baw cwn
Cadarnhawyd fod bin baw cwn wedi ei osod ar sgwâr Rhostryfan.

h) Mynwent Cefnfaes
Cadarnhaodd y clerc fod TE wedi cynnig i atgyweirio wal y fynwent yn dilyn gwaith ar dorri'r goeden. Trafodwyd tendro am y gwaith ymgynghori ar gyfer creu wal newydd i'r fynwent, cynigiodd BH gyda GW yn eilio, i roi'r tendr allan i gwmnïau lleol.

i) GT – Cais cynllunio Dinas – dim offer yn y cae chwarae.
Mynegwyd pryder gan GT nad oedd offer yn mynd i gael ei roi yn y cae chwarae a bod ei leoliad rhy agos i'r rheilffordd. Derbyniwyd llythyr gan CG yn egluro bod apêl wedi ei gyflwyno i'r cais hwn, a bod ffurflen i'r Cyngor Cymuned ei lenwi a chyfleu eu pryderon. Cynigiodd GT + BH yn eilio i AMJ lenwi'r ffurflen hon gan ei fod gyda gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cais. Gofynnwyd i'r clerc i bostio'r manylion iddo.

j) TE - arwydd 30mph angen ei symud - 3 x tŷ wedi ei adeiladau ar ôl hynny.
Cadarnhaodd y clerc y byddai'n ail-gysylltu gyda CG ynglŷn â'r mater.

k) RD – Fly tipping Lon Wen.
Yn absenoldeb RD, penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Ychwanegodd GT fod sbwriel yn casglu wrth y cattle grid ger Capel Rhosgadfan.

l) RD - Tir comin - trac beic modur wrth fynedfa newydd y chwarel - e-bost i Dion edrych i mewn i'r mater.
Derbyniodd y clerc e-bost gan Dion yn egluro eu bod wedi bod mewn cyswllt gyda'r heddlu ynglŷn ar broblem ond nad oedd yr heddlu gyda'r gallu i'w herlyn. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r heddlu i ofyn pam?

m) BH - Sefyllfa traffig o flaen Ysgol Rhostryfan.
Nododd BH ei fod yn disgwyl asesiad risg gan yr Ysgol. Cadarnhaodd NE y byddai'n atgoffa'r Llywodraethwyr o hyn.

n) MW - Llygod ym Mro Cadfan - CCG.
Derbyniodd y clerc e-bost yn cadarnhau fod CCG yn edrych i mewn i ddifa'r pla yn y stadau o gwmpas Rhosgadfan. Penderfynodd y Cyngor i gadw llygaid ar y sefyllfa ag adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

o) MW – Dwr yn rhedeg, draen wedi blocio heibio Capel Rhosgadfan LL54 7HH.
Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau y byddai CG yn ymweld â'r safle a gweithredu fel mae'r angen.

p) MW – Dwr dal ar y lon ers blwyddyn.
Trafodwyd mai ger Tŷ Hen, yng nghyffordd Rhosgadfan o gyfeiriad Rhostryfan oedd y broblem. Cadarnhaodd y clerc y byddai'n cysylltu gyda CG.

q) GW Sgwâr Rhostryfan i Rhos Isaf (rhwng Maen Brith) - dwr yn codi o'r lon.
Derbyniodd y clerc ymateb gan CG, yn nodi fod ymchwil wedi bod ynglŷn â hyn sawl gwaith. Ond nad oedd dim all CG ei wneud heb fynd i gost sylweddol, gyda dim sicrwydd y byddai'r broblem ddim yn ail godi. Byddent yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

r) Asesiad Risg – Cyngor Cymuned Llanwnda

Dosbarthwyd copi o'r asesiad risg allan i'r cynghorwyr a gofynnwyd iddynt daro golwg drosto a rhoi eu sylwadau arno yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Derbyn Adroddiadau

**Derbyn Adroddiadau**

a) Ymateb gan CG i faterion a godwyd yng nghyfarfod 20fed o Fawrth, 2019.
Adroddwyd yr ymatebion eisoes, yn yr eitemau misol uchod.

## 7. Materion Ariannol

**Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 17eg o Ebrill, 2019**

**1. Cyfrif Cadw**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (20.03.19) | 24,444.10 |
| Ad-daliad llwybrau | 821.08 |
| **Balans ar derfyn busnes 17eg o Ebrill 2019** | **£ 25,265.18** |

**2. Cyfrif Siec**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (20.03.19) | **3286.13** |
| + claddedigaethau £1400 | 1400.00 |
| - 101422 Cyflog y Clerc – Mawrth 2019 | 446.80 |
| - Cyllid y Wlad – Mawrth 2019 | 101.20 |
| - 101423 Cyngor Gwynedd - Ffi asesu mynwent Cefnfaes | 330.00 |
| - 101422 Gwalch Cyf - torri coeden (anfoneb ddiwygiedig) | 672.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 17eg o Ebrill 2019** | **£3136.13** |

**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 17eg Ebrill 2019**

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc – Ebrill 2019 | 465.40 |
| Cyllid y Wlad – Ebrill 2019 | 105.60 |
| Petty Cash – 2019 | 350.00 |
| Ffestiniog + Welsh Highland Railways | 48.00 |
| **Cyfanswm** | **£969.00** |

Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn.

## 8. Materion Cynllunio

Cais – C19/0069/24/LL – Codi ised stori amaethyddol – Tyn Pant, Llandwrog Uchaf, Caernarfon LL54 7RA.

**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.**

| 9. | Gohebiaeth a chylchgronau |
|---|---|
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Hwb Iechyd a Lles Dyffryn Nantlle.<br>Nodwyd fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Felinwnda, Fron a Thalysarn i drafod y posibilrwydd o wasanaethau iechyd newydd yn dod i ardal Dyffryn Nantlle.<br><br>b) Llythyr - Llwybr Cilgwyn, bont tu ôl i Fro Gilbert.<br>Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryder fod cerrig yn cael ei dymchwel i lawr oddi ar y bont, Llwybr Cilgwyn. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda WHR ag Elwyn Jones i drafod y mater.<br><br>c) Rhybudd cau ffordd – Lón Glanrhyd, Dinas.<br>Eglurwyd bod y ffordd yn cau 23 o Ebrill ar gyfer gwaith cynnal a chadw.<br><br>d) Derbyniwyd e-bost gan Un Llais Cymru yn gofyn am gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fynychu'r cyfarfodydd. Cytunodd HW i gynrychioli'r Cyngor a mynychu'r cyfarfodydd chwarterol yn ystod y flwyddyn hon a diolchwyd iddo am gynnig. |
| **10.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | JH - Sgwâr Rhostryfan i lawr at Ffrwd Cae Du - angen llenwi tyllau yn y lon.<br><br>NE - Trafod dim gwaredu gwastraff niwclear ar dir y Cyngor.<br><br>**Dyddiad: 15fed o Fai, 2019**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN** |